



Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Meistr 2018

Canllawiau ar gyfer llenwi'r Ffurflen Gais

Darllenwch y canllawiau hyn cyn llenwi'r ffurflen gais ar gyfer Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Meistr Prifysgol Caerdydd. Cymerwch ofal wrth lenwi'r ffurflen oherwydd gall camgymeriadau wneud eich cais yn annilys.

Mae Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Prifysgol Caerdydd ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys i dalu ffioedd dysgu ar gyfradd ddomestig ac sydd wedi'u derbyn ar raglenni Ôl-raddedig a Addysgir amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at raddau meistr.

Nid yw pob rhaglen yn gymwys.

Tudalen 1: Manylion Personol

1. Rhif Cais Myfyriwr Prifysgol Caerdydd

Rhowch y rhif myfyriwr 7 digid unigryw y mae Prifysgol Caerdydd wedi'i roi i chi. Mae'r rhif ar unrhyw ohebiaeth gan ein Hadran Gofrestru e.e. y llythyr sy'n cynnig lle i chi. Rhaid cynnwys hwn er mwyn i chi gael eich ystyried ar gyfer dyfarniad.

2. Cyfenw/Enw Teulu

Rhowch eich enw teulu fel y nodwyd ar eich cais i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

3. Enw cyntaf/bedydd a 4. Enwau canol / Unrhyw enwau eraill

Rhowch bob enw a roddwyd i chi ac unrhyw enw arall/enwau eraill fel y nodwyd ar eich cais i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

5. Dyddiad Geni

Rhowch eich dyddiad geni yn nhrefn DIWRNOD/MIS/BLWYDDYN.

6. Rhif cyswllt

Rhowch rif ffôn er mwyn i ni allu cysylltu â chi. Ni fyddwn yn defnyddio'r rhif oni bai ein bod heb gael ebost gennych o fewn unrhyw amserlen benodol.

6. Ebost

Rhowch gyfeiriad ebost dilys i ni. Dyma'r dull cysylltu sydd orau gennym, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r cyfeiriad yn gywir.

7. Teitl y Cwrs/Gradd

Rhowch deitl y rhaglen ôl-radd a addysgir yr ydych wedi cael cynnig i'w hastudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

8. Ysgol Academaidd

Nodwch ym mha ysgol y cynhelir eich rhaglen. Os cynhelir eich rhaglen mewn mwy nag un ysgol, dewiswch bob ysgol berthnasol. Os nad ydych yn siŵr, edrychwch ar ein [Cronfa ddata o gyrsiau](#).

Tudalen 2 ac 3: Cymwysterau Diweddaraf/Cymwysterau heb eu cadarnhau 9-19.

Rhowch enw a chyfeiriad llawn (gan gynnwys gwlad) y sefydliad addysgol y buoch ynddo wrth i chi gwblhau'ch cymhwyster diweddaraf.

Rhowch ddyddiadau'r cyfnod y buoch yno, manylion unrhyw gymwysterau y ceisiwyd eu hennill neu y llwyddwyd eu hennill, gan gynnwys yr enw llawn a'r pwnc, y graddau a gawsoch neu y disgwylir y chi eu cael, a dyddiad dyfarnu'r cymwysterau (neu y disgwylir dyfarnu'r cymwysterau).

Nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau ategol atom. **Ni** fyddwn yn ystyried unrhyw wybodaeth ategol a anfonir.

Tudalen 3: Datganiadau Ategol

Ysgrifennwch gyfres o ddatganiadau byr i ategu eich cais am ysgoloriaeth. **Dim ond** hyd at 200 o eiriau fesul adran (yr uchafswm nodau yw 1,400, gan gynnwys bylchau).

Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais y dylech ei chynnwys, a pheidiwch â mynd dros uchafswm y geiriau a ganiateir. **Ni** fyddwn yn ystyried unrhyw wybodaeth sy'n mynd dros yr uchafswm. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio hwn drwy ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau.

Cewch ddehongli'r adran Datganiadau Cefnogi ar y ffurflen gais fel y mynnwch. **Nid** ydym yn rhoi arweiniad ynglŷn â sut i ddehongli ac ateb yr adran hon. Byddwn yn asesu eich gallu i ddehongli'r cwestiynau ac ymateb yn briodol iddynt yn rhan o'r broses asesu ar gyfer yr ysgoloriaethau. **Nid** oes enghreifftiau o ffurflenni cais a datganiadau ategol ar gael.

Mae penderfyniadau'r paneli dewis yn derfynol ac ni fydd modd apelio.

20. Nodwch pam rydych yn credu y byddech yn addas ar gyfer yr Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr yn eich barn chi, gan gynnwys manylion unrhyw lwyddiannau academaidd nodedig neu lwyddiannau personol sylweddol eraill.

21. Nodwch pam y credwch y bydd eich rhaglen astudio arfaethedig ym Mhrifysgol Caerdydd yn fuddiol ar gyfer eich datblygiad personol a phroffesiynol, a pham y dewisoch chi Brifysgol Caerdydd.

22. Dangoswch sut rydych yn bwriadu gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned, eich cymdeithas, yr economi, y byd academaidd neu faes ymchwil o ganlyniad i gael eich cymhwyster ym Mhrifysgol Caerdydd, a sut gallwch gynrychioli Prifysgol Caerdydd y tu hwnt i'ch astudiaethau.

Tudalen 4 Y dudalen olaf

23. Ariannu eich Astudiaethau

Nodwch sut rydych yn bwriadu talu am weddill eich ffioedd dysgu neu eich costau byw. Nid yw'r Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr yn talu'r ffioedd dysgu'n llawn nac yn rhoi unrhyw gymorth tuag at dalu costau byw. Felly, ni ddylech ddibynnu'n llwyr ar gael ysgoloriaeth i ariannu hyn. Cewch ragor o wybodaeth am ffynonellau arian eraill ychwanegol ar ein [gwefan](#).

Ni fydd myfyrwyr sy'n cael eu ffioedd dysgu wedi i ariannu'n **llawn** gan ffynonellau eraill (megis y Llywodraeth, elusennau neu sefydliadau preifat) yn gymwys i gael ysgoloriaeth. Nid yw benthyciadau fel Benthyciadau Llywodraeth y DU ar gyfer Ôl-raddedigion (e.e. sydd ar gael drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru a Lloegr (gan ddibynnu ar leoliad y cartref)) yn cael eu hystyried yn gyllido ac os mai dyma yw eich unig ffynhonnell arall o gyllid, byddech yn dal i fod yn gymwys am yr Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr lawn.

Mae ysgoloriaethau rhannol ar gyfer ffioedd dysgu o ffynonellau eraill yn dderbyniol, hyd at y cyfanswm nad yw'r Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr yn ei dalu. Os yw'r ysgoloriaeth rannol ar gyfer ffioedd dysgu yn fwy na'r cyfanswm hwn, bydd yr Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr yn cynnwys y swm sy'n weddill ar ôl cymhwyso'r ysgoloriaeth ffioedd dysgu. Bydd angen i chi ein hysbysu ni am delerau ac amodau'r ysgoloriaeth drwy ebost: pgscholarships@caerdydd.ac.uk

24. Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gytuno i ganiatáu i Brifysgol Caerdydd ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir ar gyfer gweithgareddau marchnata megis: cyhoeddiadau, gwefannau, gweithgareddau recriwtio a/neu weithgareddau hyrwyddo'r ysgoloriaeth. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gytuno hefyd i fynd i unrhyw ddigwyddiadau gwobrwyo a bod yn llysgennad i Brifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaethau ac am 5 mlynedd ar ôl graddio.

Amlinellir dyletswyddau llysgennad yn y telerau ac amodau y bydd yn rhaid i bob derbynnydd ysgoloriaeth lofnodi. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i beidio ag ymyrryd â'ch astudiaethau.

25. Datganiad

Cadarnhewch fod yr holl wybodaeth yn y cais hwn yn gywir.

Hwyrach y byddwn yn cysylltu â chi i gael mwy o wybodaeth neu dystiolaeth o'r hyn yr ydych wedi'i gyflwyno yn eich datganiadau ategol.